GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4076 (HAMILTON TERRACE, ABERDAUGLEDDAU, SIR BENFRO) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn hwyluso cynnal gwasanaeth Sul y Cofio ar gefnffordd yr A4076, neu gerllaw iddi, yn Aberdaugleddau, Sir Benfro.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, ar gyfer y digwyddiad neu ar gyfer gwaith brys, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A4076 a elwir yn Hamilton Terrace sy'n ymestyn o'i chyffordd â Priory Street hyd at ei chyffordd â The Rath.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin/de yw mynd ar The Rath, Sandhurst Road, Great North Road, Charles Street a Dartmouth Street. Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain/gogledd yw mynd ar Dartmouth Street a Robert Street i Great North Road.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 8 Tachwedd 2026 a bydd yn para am 1 diwrnod ar y mwyaf. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol o 10:00 o'r gloch hyd at 12:00 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

C WYNN
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A4076 TRUNK ROAD (HAMILTON TERRACE, MILFORD HAVEN, PEMBROKESHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to facilitate holding the Remembrance Sunday memorial service event on or near the A4076 trunk road at Milford Haven, Pembrokeshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services, for the event or for emergency works, from proceeding on the length of the A4076 trunk road known as Hamilton Terrace that extends from its junction with Priory Street to its junction with The Rath.

The alternative route for west/southbound vehicles is via The Rath, Sandhurst Road, Great North Road, Charles Street and Dartmouth Street. The alternative route for east/northbound vehicles is via Dartmouth Street and Robert Street to Great North Road.

The Order comes into force on 8 November 2026 and has a maximum duration of 1 day. The temporary prohibition is expected to operate from 10:00 hours to 12:00 hours on that date.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

C WYNN
Transport
Welsh Government